Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 15.01.2021

## Llywodraeth Cymru i gryfhau'r ddeddfwriaeth i sicrhau bod gweithleoedd a siopau'n fwy diogel

Mae Prif Weinidog Cymru Mark Drakeford wedi cyhoeddi y bydd rhaid i fusnesau yng Nghymru gynnal asesiad risg penodol y coronafeirws o dan ddeddfwriaeth newydd Llywodraeth Cymru. Bydd yr asesiadau risg hyn yn fan cychwyn ar gyfer gweithredu'r mesurau rhesymol sy'n ofynnol er mwyn lleihau'r cyswllt â'r coronafeirws mewn eiddo sy'n agored i'r cyhoedd ac mewn gweithleoedd.

Mae hyn yn cynnwys ystyried materion fel:

- a yw'r awyru'n ddigonol
- hylendid
- sicrhau bod cadw pellter corfforol yn digwydd
- defnyddio cyfarpar diogelu personol a gorchuddion wyneb

Bydd hefyd yn cynnwys ystyried sut mae cyflogwyr yn sicrhau bod cymaint â phosibl o bobl yn gallu gweithio o gartref. I weld y datganiad yn llawn, ewch i:

https://llyw.cymru/llywodraeth-cymru-i-gryfhaur-ddeddfwriaeth-i-sicrhau-bod-gweithleoedd-a-siopaun-fwy-diogel?_ga=2.216003607.1098568246.1610626558-9723480.1597401025

# Cronfa Cymorth Penodol i'r Sector Lletygarwch, Twristiaeth a Hamdden yr ERF ar agor

Mae pecyn Cymorth Penodol i'r Sector (cost gweithredu) ar agor ac wedi'i dargedu at fusnesau Lletygarwch, Twristiaeth a Hamdden a busnesau cadwyn gyflenwi cysylltiedig sydd wedi eu heffeithio'n sylweddol (mwy na 60% o effaith ar drosiant) o ganlyniad i'r cyfyngiadau gyflwynwyd yn Rhagfyr 2020. Bydd y gronfa yn pahrau i fod ar agor am bythefnos o 13 Ionawr 2021, neu tan i'r cyllid gael ei ymrwymo'n llawn. Mae'r galw am y Gronfa wedi bod yn uchel – felly peidiwch ag oedi! I ddefnyddio'r gwiriwr cymhwysedd i adolygu'r meini prawf ac i ymgeisio, ewch i:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/sectorspecificgrant/cy

I ddarllen canllawiau'r gronfa, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/cymorth-penodol-ir-sector-cronfa-cadernid-economaidd-erf

# Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig (Bwyd)

Mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig – BWYD yn gynllun buddsoddiadau cyfalaf i gefnogi prosiectau sy'n cynnig manteision clir a mesuradwy i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Mae'r cynllun gwerth £3.2m yn agored i broseswyr a gweithgynhyrchwyr bwyd a diod bach micro a newydd ledled Cymru. Bydd y Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig – BWYD yn agor ar 18 Ionawr 2021 ac yn cau ar 22 Chwefror 2021. Ewch i:

https://llyw.cymru/rhaglen-datblygu-gwledig-2014-i-2020-dyddiadau-ymgeisio

# SMART Cymru – Galwad am brosiectau datgarboneiddio ymchwil a datblygu

Mae rhaglen SMART Cymru Llywodraeth Cymru a ariennir gan yr UE yn cynnig cyfle i fusnesau cymwys wneud cais am grant Datgarboneiddio newydd SMART Cymru i gyfrannu at archwilio dichonoldeb syniadau datgarborneiddio. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/innovation/cy/arloesedd-smart/datgarboneiddio

# Annog siopa'n lleol yng Ngwynedd

Mae ymgyrch Cyngor Gwynedd yn annog pobl i gefnogi busnesau lleol yn parhau ar gyfer 2021. Fel rhan o'r ymgyrch cyn Nadolig, bu cyfle i fusnesau gael eu rhestru ar y wefan isod:

https://bit.ly/prynulleol2020

Yr ydym yn parhau i fod yn awyddus i glywed gan fusnesau manwerthu sydd yn dymuno cael eu cynnwys ar y wefan.

Cysylltwch â: twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru

# Hufenfa De Caernarfon i greu 30 o swyddi yng Ngwynedd fel rhan o fuddsoddiad o £14m

Mae Hufenfa De Caernarfon wedi cyhoeddi ehangiad £14.4m dros dair blynedd i gynyddu cynhyrchiant caws 50 y cant, a chreu 30 o swyddi newydd erbyn 2024. Cefnogir y buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru gyda grant o £5 miliwn gan eu Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd. Mwy am y stori hon ar y ddolen ganlynol:

http://bit.ly/3nLUQGW

# Miwtini – Rhwydwaith Creadigol a Digidol Colwyn 21 Ionawr 2021

Rhaglen 12 wythnos sydd yma i'ch helpu chi i gychwyn eich busnes, gyda phopeth o gynllunio busnes, i ariannu, i gymuned o gefnogaeth y tu ôl i chi! Mae y Miwtini nesaf mewn partneriaeth â The Design Trust a Imagine Colwyn Bay. Mae'r Miwtini hwn yn canolbwyntio ar fusnesau Creadigol a Digidol, a bydd wedi'i gynllunio'n benodol i'r rhai sy'n cychwyn neu'n tyfu busnes yn y sectorau hynny. Mae cyflwyniad un awr am ddim yn cael ei gynnal ar 21 Ionawr 2021 dros Zoom. I archebu eich lle ac i gael mwy o wybodaeth, ewch i:

https://creativeanddigitalcolwynnetwork.eventbrite.co.uk

Yn y cyfamser gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud cais am y cyfle unigryw hwn i fod yn rhan o'r Miwtini nesaf gan fod lleoedd yn gyfyngedig. Am y ffurflen gais:

https://form.jotform.com/Openshaw/Miwtini

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch
busnes@gwynedd.llyw.cymru